Ken Skates AC
Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

4 Hydref 2019

Annwyl Ken,

Diolch am ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor ar system y Bathodyn Glas yng Nghymru, a'r fersiwn a gafwyd wedi hynny o'r ymateb wedi'i ddiweddaru. Trafododd yr aelodau'r ymateb yn ein cyfarfod ar 3 Hydref, a chytunwyd y dylwn ysgrifennu atoch cyn y ddadl yn y Cyfarfod Llawn, sydd wedi'i drefnu ar gyfer 16 Hydref.

Roedd yr aelodau'n siomedig y gwrthododd Llywodraeth Cymru nifer o'n hargymhellion yn llwyr. Rydym yn cydnabod bod tri o'r argymhellion a wrthodwyd yn wreiddiol wedi'u derbyn mewn egwyddor yn yr ymateb wedi'i ddiweddaru, ond mae chwe argymhelliad wedi'u gwrthod o hyd. Roeddem ein synnu oherwydd ei bod yn ymddangos, yn ystod y sesiwn dystiolaeth lafar ar 1 Mai, eich bod yn awgrymu y byddech yn agored i ystyried rhai o'r materion hyn.

Mae argymhelliad 4 yn ymwneud ag ystyried opsiynau ar gyfer cyflwyno cynllun parcio rhatach ar wahân i bobl y mae arnynt angen mynediad cyflym i amwynderau, ond nad ydynt yn deilwng i gael bathodyn glas drwy eu rhinwedd eu hunain. Gwnaethom drafod â chi opsiynau posibl ar gyfer galluogi pobl, fel gofalwyr, i gael mynediad o'r fath a gwnaethoch ddweud wrthym y byddai'n well gennych edrych ar broses gyfochrog ar gyfer cynllun parcio cadarnhaol a fyddai i fwy o bobl. Sylwaf fod yr ymateb yn cyfeirio at yr angen am sylfaen dystiolaeth gadarn ac, er ein bod yn cydnabod hyn, hanfod yr argymhelliad hwn yw y dylai Llywodraeth Cymru **ystyried opsiynau** ar gyfer cyflwyno cynllun. Felly, rydym yn siomedig na allech dderbyn yr egwyddor y tu ôl i'r argymhelliad hwn a byddem yn ddiolchgar pe gallech ailystyried hyn.

Mae argymhellion 9 a 10 yn cyfeirio at ddiwygio Deddf Cleifion Cronig a Phersonau Anabl 1970. Wrth wrthod y rhain, mae'r ymateb yn dweud nad oes capasiti yn y rhaglen ddeddfwriaethol ar gyfer y tymor Cynulliad hwn. Fodd bynnag, nid yw'n nodi a fyddai Llywodraeth Cymru, pe câi amser, yn cefnogi

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddCymunedau@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddCymunedau
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCommunities@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCommunities
0300 200 6565

egwyddor y rhain. A allwch egluro a ydych yn derbyn egwyddor yr argymhellion hyn?

Mae Argymhelliad 11 hefyd yn ymwneud â diwygio Deddf Cleifion Cronig a Phersonau Anabl 1970, yn yr achos hwn yn benodol ynghylch cyhoeddi canllawiau statudol. Mae'r ymateb i'r argymhelliad hwn yn dangos diffyg cysylltiad â’r dystiolaeth a gawsom gennych. Mae’r ymateb yn dweud nad yw Llywodraeth Cymru “o'r farn bod angen pŵer i gyhoeddi canllawiau statudol mewn cysylltiad â chynllun y Bathodyn Glas”, ond, mewn tystiolaeth i ni, gwnaethoch gyfaddef y byddai’n fwy dymunol cael canllawiau statudol ar waith. Byddwch yn cofio bod anghysondebau wrth weithredu'r cynllun yn un o'r prif bryderon a fynegwyd gan randdeiliaid ac, yn ystod eich tystiolaeth, gwnaethoch ddweud wrthym mai eich blaenoriaeth gyntaf oedd sicrhau bod y cynllun yn cael ei weithredu'n gyson ar draws Cymru. Felly, rydym yn synnu ac yn siomedig y gwrthodwyd yr argymhelliad hwn.

Roedd y Pwyllgor o'r farn y byddai'n ddefnyddiol i mi ysgrifennu atoch i amlinellu ein pryderon. Byddwn yn ddiolchgar pe gallech roi eglurhad ar y materion hyn ac ymateb erbyn 15 Hydref i'n galluogi i ystyried hyn ymhellach cyn y ddadl.

Edrychaf ymlaen at glywed gennych.

Yn gywir

John Griffiths AC

Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg.
We welcome correspondence in Welsh or English.